# BWRDD PARTNERIAETH RHANBARTHOL GORLLEWIN CYMRU

23 Ionawr 2023, 2.00PM

## Drwy Teams

# Cofnodion

### Yn bresennol:

Anna Bird (AB), Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Audrey Somerton-Edwards (ASE), Cyngor Sir Ceredigion
Y Cyng. Alun Williams (CyngAW), Cyngor Sir Ceredigion
Jason Bennett (JB), Cyngor Sir Penfro
Judith Hardisty (JH), Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (Cadeirydd)
Estelle Hitchon (EH), Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru
Y Cyng. Tessa Hodgson (CyngTH) Cyngor Sir Penfro
Hilary Jones (HJ), Cymdeithas Tai Bro Myrddin
Hazel Lloyd-Lubran (HLL), Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion (Is-Gadeirydd)
Rhian Matthews (RhM), Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Gareth Morgans (GM), Cyngor Sir Caerfyrddin
Jake Morgan (JM), Cyngor Sir Caerfyrddin
Malcolm Perrett(MP), Fforwm Gofal Cymru
Cathryn Thomas (CT), Gofal Cymdeithasol Cymru
Y Cyng. Jane Tremlett (CyngJT), Cyngor Sir Caerfyrddin

Hefyd yn bresennol:

Kelvin Barlow (KB), Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru
Kim Neyland (KN), Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru
Michael McClymont (MM), Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru (Cofnodion)
Chris Harrison (CH), Cyngor Sir Penfro
Lee Davies (LD), Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Josh Summers (JS),Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru
Rebecca Jones (RJ), Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru
Samia Edmonds (SE), IGC – Cynllunio'r GIG
Shelley Davies (SD), IGC - Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio

### Ymddiheuriadau

Alan Thomas (AT), Cynrychiolydd Defnyddwyr Gwasanaeth
James Tyler (JT),
Jen Green (JG), Pobl yn Gyntaf Sir Benfro

Darren Mutter (DM), Cyngor Sir Penfro
Donna Pritchard (PD), Cyngor Sir Ceredigion
Jill Paterson (JP), Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Jonathan Morgan (JM), Cyngor Sir Caerfyrddin
Kevin Pett (KP), Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru
Steve Moore (SM), Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

## 1. Croeso / Ymddiheuriadau

Estynnodd y Cadeirydd, Judith Hardisty, groeso i bawb a oedd yn bresennol yn y cyfarfod. Ymddiheurwyd i gydweithwyr yng Ngheredigion lle bwriadwyd cynnal y cyfarfod yn wreiddiol, yn Aberaeron. Fodd bynnag, roedd yr amser teithio yn cymryd gormod o amser ar galendrau pobl, a bu'n rhaid newid y cyfarfod yn gyfarfod rhithwir. Y gobaith yw y bydd ein cyfarfod nesaf ym mis Mawrth 2023 yn gyfarfod wyneb yn wyneb, ac mai'r lleoliad fydd Sir Benfro. Roedd cydweithwyr o Lywodraeth Cymru yn ymuno â'r cyfarfod heddiw i gyflwyno eitem ar yr agenda ac estynnwyd croeso iddynt. Nodwyd yr ymddiheuriadau.

## 2. Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Hydref 2022

Cytunwyd ar y cofnodion.

## 2a. Materion yn Codi o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Hydref 2022

Tynnodd KB sylw at dudalen pump o'r bwndel, sef crynodeb o'r gweithdy blaenoriaethau a gynhaliwyd ym mis Hydref 2022. Dywedodd KB fod trafodaeth adeiladol a myfyriol wedi'i chynnal mewn grwpiau llai yn ystod y gweithdy. Roedd 6 maes â blaenoriaeth wedi'u nodi. Rhoddodd rai uchafbwyntiau'n gysylltiedig â meysydd â blaenoriaeth y BPRh a rôl y BPRh. 1. O ran llywodraethu, arwain a chymeradwyo, y farn oedd y dylai fod gan y BPRh gyfrifoldeb clir yn hynny. 2. O ran cyfathrebu, sicrhau ein bod yn cyfathrebu'n well ynghylch y gwaith rydym yn ei gyflawni, ac ystyried sut i esbonio hynny i'r cyhoedd a'n partneriaid. 3. Y newid tuag at atal yn y gymuned i leihau'r pwysau ar draws y system, sy'n berthnasol i nifer o eitemau ar yr agenda heddiw. 4. Symud tuag at rôl fwy sylweddol wrth gynllunio'n strategol, yn hytrach nag ymateb i gynlluniau sydd eisoes wedi'u datblygu. 5. Mwy o ffocws ar ganlyniadau a 6. Fel mater o flaenoriaeth, mae angen edrych ar bob rhan o'r Gweithlu. Gobeithiai y byddai hynny'n fuddiol ar gyfer yr eitemau eraill ar yr agenda heddiw.

## 3. Cofnod Gweithredu

Dywedodd KB ei fod wedi rhannu cofnod gweithredu cyfredol ychydig cyn y cyfarfod, er gwybodaeth. Rhoddodd ddiweddariad byr i'r grŵp ar y camau gweithredu ar gyfer pob eitem.

**GWEITHREDU:** KB i rannu adroddiad ar Wobrau Cyntaf y BPRh ar 6 Rhagfyr yn Halliwell, gan fanylu ar yr enillwyr a'r rhai a gafodd yr ail wobr ym mhob categori.

## 4. Y Diweddaraf gan Lywodraeth Cymru am Ddatblygiadau Polisi

Cyflwynodd SE, Cyfarwyddwr Cynllunio Iechyd LlC ac SD, Pennaeth Partneriaethau ac Integreiddio LlC, eu hunain.

Eglurodd SD ei bod yn gofalu am y BPRhau ledled Cymru yn ogystal â'r gronfa Integreiddio Rhanbarthol a'r gronfa cyfalaf integreiddio ac ailgydbwyso newydd sydd gennym ar waith. Dywedodd eu bod yma i gymryd rhan yn y drafodaeth barhaus ynghylch sut y gallwn gryfhau a symleiddio ein tirlun cynllunio ar draws iechyd a gofal cymdeithasol. Dywedodd eu bod yn awyddus i weld bod y cynlluniau sy'n cael eu datblygu yn gynlluniau integredig. I'r un graddau, fodd bynnag, roeddent am osgoi unrhyw fylchau neu ddyblygu yn y prosesau hynny hefyd. Dywedodd mai'r BPRh hwn fyddai'r cyntaf yng Nghymru i'w gwahodd i ddilyn y drafodaeth. Roeddent yn cynnal trafodaethau cynllunio â Chyfarwyddwyr y GIG ynghylch sut i sicrhau mwy o integreiddio rhwng cynlluniau tymor canolig integredig y GIG, cynlluniau statudol tair blynedd i gyrff y GIG a'r cynlluniau traws-glwstwr tanategol ar gyfer ardaloedd lleol, yn ogystal â chynlluniau ardal y BPRh. Maent yn cydnabod bod llawer o feysydd cyffredin. Maent yn ystyried sut rydym yn integreiddio ac yn alinio nid yn unig y prosesau, ond cynnwys ac uchelgais y cynlluniau hynny hefyd. Maent yn croesawu’r cyfle i ymgysylltu â rhanddeiliaid ynghylch sut y gallwn fynd ymhellach a chyflawni'n gyflymach ar hynny hefyd.

Yn ei chyflwyniad, soniodd SE am yr hyn sydd bwysicaf, sef dealltwriaeth o'r naratif daearyddol neu sefydliadol. Maent yn cydnabod ei bod yn ofynnol i sefydliadau a’u partneriaid ddatblygu nifer o gynlluniau, ond nid yw’r cynlluniau hynny’n sefyll ar wahân i’w gilydd. I'r gwrthwyneb, maent yn dod at ei gilydd o dan ymbarél Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Edrych ar sut y gall yr ardaloedd daearyddol neu'r sefydliadau hyn esbonio'u hanes gydag uchelgais, gan anelu i wella canlyniadau ei boblogaeth yn ogystal â lleihau anghydraddoldeb. Dywedodd SE fod cyfle i ystyried sut y gellir defnyddio ein camau, ein hymdrechion a'n hadnoddau ar y cyd. I'r perwyl hwnnw, dywed SE fod ei chyfrifoldebau yn ymwneud yn benodol â chynlluniau tymor canolig integredig y GIG. Mae’r Gweinidog yn cyhoeddi canllawiau bob blwyddyn sy’n nodi ei blaenoriaethau a phan edrychwn ar y blaenoriaethau hynny ar gyfer y cyfnod nesaf o dair blynedd, gwelir perthynas glir â'r cynlluniau ardal ar draws pob un o'r meysydd hynny â blaenoriaeth. Ar ryw ffurf neu'i gilydd, boed hynny'n achos o oedi cyn trosglwyddo gofal, boed yn ofal sylfaenol a chymunedol, neu'n iechyd meddwl a lles hefyd. Dywedodd mai'r hyn y maent yn ceisio ei wneud yw symleiddio'r tirlun hwnnw er mwyn sicrhau bod modd datblygu cynlluniau cadarn sy'n gyson â'i gilydd i gyflawni ein huchelgeisiau cyffredin.

Rhoddodd SD yr wybodaeth ddiweddaraf i'r grŵp am y gwaith y maent wedi bod yn ei wneud o dan y rhaglen ailgydbwyso gofal a chymorth, a oedd yn trafod cryfhau gwaith rhanbarthol. Soniodd eu bod wedi bod yn cynnal adolygiad o ganllawiau rhan 9 o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant sy’n darparu’r egwyddorion arweiniol ar gyfer BPRhau.

Nododd y bu llawer o newid i'r tirlun ers ysgrifennu canllawiau. Roedd hyn wedi bod yn gyfle i adeiladu ar yr hyn yr oeddent wedi'i ddysgu a'u profiadau i ailddrafftio'r canllawiau hynny, ac i roi esboniad cliriach o'r hyn yr oeddent am i'r BPRhau fod.

Un o'r pethau allweddol y maent wedi'i wneud yw cryfhau'r neges ynghylch lle mae'r ddyletswydd i gydweithredu, oherwydd nid yw BPRhau yn endidau cyfreithiol yn eu hawl eu hunain. Rhoddodd eglurhad ynghylch yr ymgynghoriad ar y papur gwyn ailgydbwyso, pan ofynnwyd y cwestiwn a fyddai angen rhoi statws cyfreithiol i'r BPRhau, i'w grymuso, ond dywedodd mwyafrif llethol o'r partneriaid statudol nad oeddent am i hynny ddigwydd. Soniodd ei bod hi'n bwysig inni ddeall mai ar awdurdodau lleol a byrddau iechyd yr oedd y ddyletswydd i gydweithredu o safbwynt cyfreithiol, a bod angen inni, fwy na thebyg, edrych yn fanylach ar y mecanweithiau atebolrwydd yn gysylltiedig â hynny i'r partneriaid dan sylw. Dywedodd mai'r BPRh yw'r dull a ddefnyddir iddynt gyflawni'r ddyletswydd honno. Y BPRh yw'r fan lle maent yn dod ynghyd â Phartneriaid ehangach i gydweithredu ac ystyried sut y gallant gynllunio a darparu gwasanaethau ar draws y tirlun iechyd a gofal cymdeithasol yn y rhanbarth hwnnw.

Teimlwyd bod angen cynnal trafodaeth bellach ynghylch sut i fynd i'r afael â'r prinder staff cronig, sy'n amharu ar y gallu i ddarparu gwasanaeth cadarn. Mynegodd JH ddiolch i SE ac SD am eu presenoldeb a'u cyflwyniad yn y cyfarfod.

## 5. Y Pwysau Cyfredol ar y System a newid y Patrwm

Dywedodd RM y gallai siarad am y pwysau ar y system, ond gwyddai fod pawb yn yr ystafell rithwir yn ymwybodol bod pwysau ar bob rhan o'r system iechyd a gofal cymdeithasol a'r trydydd sector. Mae’r pwysau i gyd yn gysylltiedig â diffygion yn y gweithlu a galw nas gwelwyd o’r blaen.

Rhannodd RhM gyflwyniad a wnaeth ar y cyd â JM i gyfarfod bord gron â Chydffederasiwn y GIG a Gofal Cymdeithasol Cymru, ac esboniodd yr hyn yr oeddent wedi bod yn ei wneud yn Sir Gaerfyrddin er mwyn dechrau newid y patrwm, gan obeithio y byddai'n ysgogi ychydig o drafodaeth, a dangosodd hefyd y cysylltiadau rhwng yr ymagwedd a fabwysiadwyd a'r cyflwyniad yr oeddem newydd ei gael gan LlC.

Roedd cyflwyniad RhM yn dangos y gwahaniaeth a gafwyd yn sgil yr ymagwedd 'gartref yn gyntaf', ond aeth yn ei blaen i ddweud bod rhwystrau'n parhau i fodoli, er gwaethaf y canlyniadau da, a bod hynny'n deillio o'r ffaith nad oedd ein sefydliadau wedi'u cynllunio i reoli'r niferoedd na'r cymhlethdodau a oedd yn dod i'r amlwg ymhlith ein poblogaeth fregus heddiw.

Ychwanegodd fod yn rhaid i'r ymagwedd at ofal oedolion hŷn fod yn seiliedig ar adnoddau a chanolbwyntio ar yr hyn sy'n cyfrif. Dywedodd nad yw eu capasiti cymunedol wedi tyfu i gyd-fynd â'r twf yn y boblogaeth dros y degawdau diwethaf, a'u bod yn parhau i ganolbwyntio ar yr heriau'n gysylltiedig â darparu gwasanaeth gofal ysbyty acíwt. Maent ar hyn o bryd yn recriwtio i weithlu integredig, gan gydag un swydd-ddisgrifiad yn rhan o'r model.

Awgrymodd fod angen ymagwedd gydgysylltiedig ar gyfer system iechyd a gofal pobl hŷn yn Sir Gaerfyrddin, ac ar draws Gorllewin Cymru. Drwy hynny mae angen hyrwyddo ymagwedd ataliol sy'n seiliedig ar asedau. Bydd y datganiad ansawdd sy’n cael ei ddatblygu’n genedlaethol, a fydd yn amlinellu arfer gorau a safonau eiddilwch, yn rhan o’r

gwaith hwn, a disgwylir iddynt gwblhau'r datganiad ansawdd hwnnw erbyn diwedd mis Mawrth 2023.

Dywedodd fod Llesiant Delta yn Sir Gaerfyrddin yn darparu'r seilwaith digidol i reoli'r ward rithwir ac i reoli'r boblogaeth honno o achosion cymhleth mewn modd rhagweithiol. Yr her i'n sefydliadau yw ystyried beth fyddwn yn ei wneud ac yn ymrwymo iddo er mwyn bwrw ymlaen i integreiddio, a'r trefniadau llywodraethu a chyllidebol a fydd yn sail i hynny. Dyma'r safbwynt yn Sir Gaerfyrddin ac mae RhM yn croesawu'r drafodaeth o ran y cyfleoedd rhanbarthol i Orllewin Cymru yn gysylltiedig â'r ymagwedd honno.

Diolchodd JH i RhM a gofynnodd a oedd unrhyw gwestiynau neu bwyntiau i'w trafod er mwyn symud hyn yn ei flaen.

Yn rhan o'r drafodaeth ddilynol, roedd ASE yn croesawu'r ffaith bod RhM wedi cydnabod y sgyrsiau anodd hynny'n gysylltiedig â gofal preswyl a chyllid, am eu bod yn ychwanegu at gymhlethdod yr hyn rydym yn ei wneud, ac roedd hi'n teimlo mai peth braf oedd ei gweld yn cydnabod hynny.

Credai JB mai'r hyn yr oedd angen sylw oedd sut i godi'r gwastad ar draws y rhanbarth, a sicrhau bod ein cyrhaeddiad yn gyfartal. Ychwanegodd fod angen gwneud rhywfaint o waith i ddal i fyny yn Sir Benfro, o gymharu â'r hyn sy'n digwydd yn Sir Gaerfyrddin. Credai JM fod JB yn gwneud pwynt pwysig, a oedd yn gyfle arall i ddweud mai'r weledigaeth ranbarthol oedd gallu ein meincnodi ni'n hunain ar draws Sir Gaerfyrddin i Geredigion a Sir Benfro.

Mae'r heriau a'r seilwaith yn amrywio ym mhob sir unigol, ond os gallwn sefydlu ein cynllun i sicrhau bod gan bawb ohonom ddealltwriaeth gyffredin ohono, gallwn wedyn feincnodi a threfnu i'w weithredu, gan obeithio sicrhau canlyniadau teg i'r boblogaeth gyfan ar draws yr ardal yn hytrach na mewn siroedd ar wahân. Mae hi'n deall nad yw'r ddogfen ymhellach, yn gyflymach gyda'n gilydd yn disgwyl ymagwedd i Gymru gyfan, ond ei bod yn hytrach yn caniatáu i bob ardal leol benderfynu drosti ei hun sut i wneud hynny.

Yn ôl SD o LlC, mae'n golygu taro'r cydbwysedd hwnnw. Mae hi'n clywed y neges yn glir fod pob ardal leol yn wahanol, ac nad yw anghenion sylfaenol pobl yn wahanol, ond mai'r modd y caiff yr anghenion hynny eu bodloni, a'r modd y cânt eu cefnogi sydd o bwys iddynt. Wrth fodloni'r anghenion hynny, dywedodd mai'r hyn sydd angen ei wneud yw sicrhau bod y safonau hynny'n mynd yn ddigon pell, gan fod y Gweinidog wedi mynegi'n glir fod angen cael arfer da a thystiolaeth dda i sicrhau bod y pethau hynny'n cael eu hailadrodd, heb orfod microreoli i sicrhau'r union nodweddion hyn ar y ddaear.

Teimlai SD ei bod hi'n ddiddorol eistedd yn y cyfarfod a chlywed hyn, gan nad yw ein rhanbarth ar ei ben ei hun, Dywedodd fod pob BPRh yn profi anawsterau gyda hyn. I gloi, dywedodd SD fod sicrhau'r arweinyddiaeth, yr ymddygiadau a'r modelau cywir yn gysylltiedig â chydweithredu yn golygu cyfaddawdu. Weithiau mae'n golygu rhoi'r gorau i rywbeth rydych chi'n hoffi ei wneud gan mai chi a wnaeth ei ddylunio, gan fod yr hyn maen nhw'n gwneud yn rhywle arall ychydig yn well.

Roedd JM o'r farn fod SD wedi rhoi ateb buddiol, gan mai dyma un o'r heriau sydd wedi bod yn anodd inni fel rhwydwaith, wrth ganlyn model safonol fel canlyniad ynddo'i hun, sydd wedi bod yn her erioed. Cred nad oes sefydliad yn y byd Gorllewinol sydd wedi'i

ganoli i'r un graddau â'r GIG, a bod rhai cryfderau posibl yn gysylltiedig â gosod safonau cenedlaethol. Serch hynny, mae'n bendant yn meddwl y gall hyn hefyd gyfyngu ar gyfleoedd i arloesi, gan mai arloesi lleol i fodloni anghenion y boblogaeth leol yw llawer o'r hyn a welir yn rhyngwladol ym maes gofal iechyd, ynghyd â threfniadau llawer gwell i integreiddio gwasanaethau atal ac acíwt nag a gafwyd hyd yma yn y wlad hon.

Dywedodd JM eu bod yn symud yn gyflym tuag at yr hyn y maent yn argyhoeddiedig sy'n gweithio yn Sir Gaerfyrddin, a bod hynny'n gyfuniad o nifer o bethau. Mae'n hyderus bod ganddynt sylfaen dystiolaeth gref o ran canlyniadau. Canlyniadau'n gysylltiedig â lleihau'r ddibyniaeth ar ofal cymdeithasol a gwella ac atal arosiadau hwy yn yr ysbyty.

Un o'r nodweddion y maent yn hyderus yn ei chylch bellach wrth edrych ar broffil a chymhlethdod y bobl sy'n treulio cyfnodau hwy yn yr ysbyty, yw mai unigolion 75+ oed mewn achosion hynod gymhleth yw'r bobl hynny, ac nad yw'r proffil o opsiynau gwely sydd ganddynt yn bodloni eu hanghenion. Dywedodd JM fod hyn yn eu hatal rhag bod yn y lle priodol, ac yn anochel mai'r unig opsiwn yw ysbyty acíwt, sef yr opsiwn mwyaf drud, a gellid dadlau mai dyna'r opsiwn gwaethaf i lawer ohonynt hefyd.

Mae'n gobeithio y byddant yn gallu cyflwyno model mwy radical ar gyfer y proffil gwelyau. Soniodd am beilot, er nad oedd ganddo'r union ddata wrth law, yn Nhŷ Pili Pala lle roedd yn tybio bod tua 80% o'r cleifion yn mynd adref, neu wedi mynd adref heb anghenion gofal, neu gyda lefel is o anghenion gofal. Maen nhw'n gweld gostyngiad sylweddol yn y gofal mewn cartrefi gofal y maen nhw'n gorfod ei brynu yn yr ardaloedd hynny. Dywed yn bendant, os ydych chi'n cyfrifo rhywbeth sy'n seiliedig ar dystiolaeth resymol, y bydd hynny'n gwneud gwahaniaeth, erbyn y gaeaf nesaf o leiaf. Dyna'r nod y maen nhw'n anelu ato.

Daeth JH â'r sgwrs i ben a diolch i RhM am arwain y drafodaeth. Dywedodd y byddai angen inni edrych ar hyn eto.

**Gweithredu:** Y Grŵp Gweithredol Integredig i gynghori'r BPRh ynghylch sut i fwrw ymlaen â hyn.

## 6. Strategaeth Eiriolaeth Gorllewin Cymru

Rhoddodd CH rywfaint o'r cyd-destun a'r cefndir i'r strategaeth, gan ddweud i'r strategaeth gael ei datblygu ar y cyd â Rhwydwaith Eiriolaeth Gorllewin Cymru, sef grŵp o ddarparwyr eiriolaeth cydweithredol ar draws y rhanbarth, ynghyd â phobl sy'n defnyddio gwasanaethau eiriolaeth.

Dywedodd fod y Strategaeth wedi bod yn cael ei datblygu ers tro, gan fod y gwaith o'i llunio wedi dechrau cyn COVID, ond y bu'n rhaid gohirio gan nad oedd hi'n ymarferol cynnwys llais/casglu barn defnyddwyr yn ystod cyfnod COVID.

Nod y strategaeth yw llunio ein trefniadau comisiynu i'r dyfodol, a sicrhau ein bod yn darparu gwasanaethau eiriolaeth o ansawdd da ar draws y rhanbarth. Bydd grŵp llywio yn cael ei ffurfio i sicrhau ei bod yn parhau i ganolbwyntio ar adrodd ar weithrediad y strategaeth wrth y grŵp comisiynu rhanbarthol, sef is-grŵp y BPRh hwn. Roedd CH yn barod i dderbyn unrhyw gwestiynau ar ôl gorffen cyflwyno'r eitem.

Dywedodd JH ei fod yn ddarn da o waith a oedd yn gwneud synnwyr a diolchodd i'r tîm am yr holl waith a wnaed i'w gynhyrchu. Diolchodd HLL hefyd i'r tîm am gynhyrchu'r papur, ac roedd ganddi sylw ynghylch comisiynu a oedd yn gysylltiedig â chomisiynu a chaffael yn gyffredinol, nid gwasanaethau eiriolaeth yn unig.

Mae HLL o'r farn fod angen inni feddwl am y modd rydym yn amseru ailgomisiynu ein gwasanaethau, yn enwedig yn y maes gwaith hwn lle rydym yn cynnig cefnogaeth i bobl sy'n fregus iawn. O edrych ar y farchnad gyfan ac ystyried ailgomisiynu gwasanaethau, mae'n creu ymdeimlad o aflonyddwch, ac mae'n debygol y bydd pobl sy'n derbyn y cymorth hwnnw'n teimlo'r aflonyddwch hwnnw, oherwydd ceir llawer iawn o ansicrwydd, ac ansefydlogrwydd i staff a gwirfoddolwyr sy'n ymwneud â darparu'r gwasanaethau hynny. Gofynnodd HLL a oedd angen inni roi ychydig o ystyriaeth i drefnu'r cylchoedd ailgomisiynu hynny fesul cam, neu ystyried eu hamseriad, fel nad ydym yn disodli'r holl wasanaethau ar unwaith.

Ymatebodd CH drwy ddweud bod y pwynt yn berthnasol, ond ein bod weithiau'n gorfod ufuddhau i ofynion caffael a rheolau sefydlog, sy'n creu graddfeydd amser nad ydynt yn ddelfrydol. Maen nhw'n ymdrechu i daro cydbwysedd â'r gwaith hwn drwy'r grŵp comisiynu. Gwnaethom roi'r gwasanaeth eiriolaeth proffesiynol annibynnol allan ar dendr, ond roedd y canlyniad yn dda iawn gan mai darparwr eiriolaeth cydweithredol a enillodd y contract, a daeth â grwpiau eraill ynghyd, gan gynnwys Age Cymru Dyfed, Pobl yn Gyntaf Sir Gaerfyrddin, Canolfan Dewis ar gyfer Byw'n Annibynnol, a Gwasanaethau Gofal Croesffyrdd Ymddiriedolaeth Gofalwyr Gorllewin Cymru. Mae CH o'r farn fod gennym angor cryf ar draws y rhanbarth, gydag un pwynt mynediad drwy un darparwr, yn gwella ansawdd hyd at safon benodol.

Soniodd CH fod cytundeb cydweithredol rhanbarthol yn cysylltu'r comisiynwyr â'i gilydd, a bod cael y fanyleb gwasanaethau honno a oedd wedi'i chydgynhyrchu yn ei gwneud hi'n bosibl i brofi hyn yng Ngheredigion. Maent wedi gweithio trwy sawl her, sydd wedi cymryd amser, ond mae'r canlyniad yn y pen draw yn fwy cadarnhaol oherwydd bydd yn gwneud y gwasanaeth yn decach ar draws y rhanbarth. Byddant yn parhau i edrych ar yr hyn y maent yn ei ddysgu a mireinio wrth fynd drwy'r cynllun gweithredu.

Galwodd JH am gael cymeradwyo'r strategaeth, ac fe'i cymeradwywyd. Mae'r bwrdd yn edrych ymlaen at gael diweddariadau wrth i'r strategaeth gael ei rhoi ar waith.

## 7. Adroddiad Blynyddol BPRh Gorllewin Cymru

Rhoddodd JS drosolwg cryno o'r adroddiad blynyddol, gan ddweud ei fod yn canolbwyntio ar y gwaith rhagorol a gyflawnwyd ar draws y rhanbarth, ac yn ffordd wych i gydweithwyr fyfyrio ar gyflawniadau'r flwyddyn ddiwethaf sydd wedi'u halinio â'n hamcanion cynlluniedig. Roedd yr ymagwedd a fabwysiadwyd yn debyg i'r fformatau a ddefnyddiwyd yn y blynyddoedd cynt, yn unol â chanllawiau LlC. Mae'r adroddiad yn rhoi'r newyddion diweddaraf am y gweithgareddau sy'n gysylltiedig â'r grwpiau poblogaeth â blaenoriaeth.

Fodd bynnag, yn wahanol i adroddiadau blynyddol blaenorol maent wedi'u grwpio ychydig yn wahanol y tro hwn, drwy edrych ar y grwpiau sy'n seiliedig ar ein nodau lefel uchel yn ein cynllun ardal, fel 'Dechrau'n Dda', 'Byw'n Dda' a 'Heneiddio'n Dda', gyda'r grwpiau poblogaeth yn cael eu crybwyll ym mhob un o'r meysydd hynny. Yn ei grynodeb, cyfeiriodd

at y gwaith sy'n cael ei wneud gan y Ganolfan Cydgysylltu Arloesi Ymchwil (RIC), ymgymeriadau'r Bwrdd Gweithlu Rhanbarthol a'r datblygiadau Ymgysylltu Parhaus a chydgynhyrchu.

Gofynnodd i KB a oedd ganddo unrhyw beth arall i'w ychwanegu. Diolchodd KB i JS am helpu i gydgysylltu'r gwaith o lunio'r adroddiad. Oherwydd gofynion eraill eleni, yr oedd hefyd am nodi bod yr adroddiad blynyddol wedi'i gynhyrchu'n hwyrach nag yr oedd wedi'i ragweld, ond bod gennym ddogfen y mae'n hapus i'w argymell i'r BPRh. Roedd JH yn hoffi'r ffordd yr oedd yr adroddiad wedi'i rannu, a theimlai fod hynny'n ei wneud yn haws i'w ddarllen.

Diolchodd HLL i JS am ei waith. Ychwanegodd ei bod yn myfyrio ar sylwadau SD gan LlC, a wnaed yn ei chyflwyniad blaenorol ynghylch y cais i gynnwys myfyrdod i'r dyfodol hefyd yn ein hadroddiad blynyddol, ac roedd hi'n meddwl tybed a fyddai'n werth edrych ar ein calendr o gyfarfodydd sydd ar ddod i sicrhau ein bod yn neilltuo digon o le ymlaen llaw fel BPRh i drafod pa feysydd gwaith y dylid eu cynnwys yn y dyfodol yn ein calendr o gyfarfodydd.

Roedd KB yn cytuno, a soniodd ein bod yn datblygu calendr BPRh, a nawr bod disgwyliadau LlC yn dod yn gliriach, y gallwn gyflwyno ein gwaith fel ein bod yn meddwl am bethau'n ddigon cynnar yn y cylch, i ganiatáu trafodaeth ddigonol, gyda grwpiau rhanddeiliaid, yn ogystal â'r BPRh.

Yr hyn y bydd LlC yn ei ddisgwyl gennym fydd cynllun cyflawni, felly bydd yr adroddiad blynyddol a'r cynllun cyflawni yn cael eu cyfuno, a fydd yn creu dogfen fwy ymarferol. Gofynnodd JS am unrhyw sylwadau eraill am y cynllun.

**GWEITHREDU:** Dywedodd JH ei bod yn deall bod angen cyhoeddi'r ddogfen ond awgrymodd fod gan y Bwrdd tan ddiwedd Ionawr i ddarllen drwy'r adroddiad a rhoi adborth i JS erbyn diwedd y mis, fel bo modd ystyried unrhyw newidiadau.

## 8. Rhaglen Graddedigion Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru Gyfan

Rhoddodd RJ esboniad cryno o Raglen Graddedigion Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru Gyfan LlC y mae JS yn cymryd rhan ynddi. Soniodd mai JS yw'r trydydd unigolyn â gradd i gael ei leoli gyda ni, a'i fod wedi bod gyda ni ers 11 mis, ac y byddai'n cwblhau ei leoliad mewn tair wythnos cyn symud i Goleg Sir Gâr lle byddai'n cwblhau lleoliad arall 11 mis o hyd. Mae'r rôl wedi cael ei seilio ar brosiectau, a phwyslais y rhaglen oedd creu arweinwyr i'r dyfodol, gan ddefnyddio fframwaith perfformiad seiliedig ar gryfderau. Yna cyflwynodd JS i'r grŵp.

Siaradodd JS am ei gyflwyniad, a oedd yn crynhoi ei brofiadau gyda'r bartneriaeth, gan gynnwys ei fyfyrdodau ac uchafbwyntiau ei brosiectau dysgu seiliedig ar waith. Soniodd yn fyr am ei gyflawniadau proffesiynol, academaidd a phersonol tra oedd yn y rôl. Siaradodd hefyd am ei arsylwadau a'r heriau y mae'n rhagweld y bydd y BPRh yn eu hwynebu yn y dyfodol. Rhoddodd JS rywfaint o grynodeb o'r cymhwyster Gradd Meistr ar arweinyddiaeth a llywodraethu ac esbonio sut yr oedd wedi cymhwyso'r hyn a ddysgodd yn ystod ei gyfnod yma, a sut y byddai'n cymhwyso hynny i'w rôl nesaf. Gorffennodd drwy rannu'r modd yr oedd ei sgiliau a'i hyder wedi datblygu dros y misoedd diwethaf, gan

ddweud ei fod yn gweld gwerth y sgiliau hynny. Gorffennodd ei gyflwyniad drwy rannu ei ddyheadau a'r modd yr oedd yn edrych ymlaen i ennill profiadau newydd. Diolchodd i dîm y BPRh am fod mor groesawgar a chefnogol, gan ddweud y bu'r wybodaeth a'r arweiniad a gafodd o gymorth aruthrol, ac y byddai'n mynd â'i brofiadau i'w leoliad nesaf a thu hwnt. Mae'n awyddus iawn i weld pa gyfleoedd fydd yn codi y tu hwnt i'r raglen. Cynigiwyd rhai sylwadau gan aelodau yng nghyfleuster sgwrsio Teams. Mynegodd aelodau'r BPRh ddiolch i JS am ei gyfraniad fu'n amhrisiadwy i'r tîm a'r BPRh. Dymunwyd yn dda iddo ar bennod nesaf ei antur yn gweithio yn y sector cyhoeddus.

## 9. Unrhyw Fater Arall

Ni chodwyd unrhyw fater.

## 10. Dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf

13 Mawrth 2023, 2:00PM – Neuadd y Sir, Cyngor Sir Penfro. JH yn edrych ymlaen at weld pobl wyneb yn wyneb.